EITEM 5

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** |
| **DYDDIAD** | **16 Tachwedd 2018** |
| **ENW** | **Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy – drafft ymgynghorol diwygiedig** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy – drafft ymgynghorol diwygiedig a dogfennau cysylltiedig er mwyn cael cefnogaeth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus am y Canllaw** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Bod y Pwyllgor yn:**<br>**1) rhoi hawl i swyddogion wneud mân newidiadau golygyddol i'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy – drafft ymgynghorol diwygiedig;**<br>**2) cymeradwyo'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy – drafft ymgynghorol diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.** |
| **AWDUR** | **Rheolwr Polisi Cynllunio, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn** |

**1. Cefndir**

1.1 Fe wnaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd benderfynu fel a ganlyn yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2018:

"Awdurdodi swyddogion perthnasol i gomisiynu arbenigwr allanol aml-ddisgyblaeth cymwys i ymgymryd â gwerthusiad beirniadol o'r Canllaw, yn benodol Adran 2 o'r Canllaw hwn."

1.2 Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno:

i. Adroddiad yr arbenigwyr allanol a gafodd eu comisiynu i ymgymryd â'r gwerthusiad beirniadol (Atodiad 1);
ii. Adroddiad gan Gadeirydd y Gweithgor Craffu Cymunedau a'r ymateb (Atodiad 2);
iii. Copi drafft ymgynghorol diwygiedig o'r Canllaw, sydd yn ymgorffori'r newidiadau angenrheidiol i ymateb i argymhellion yr arbenigwyr allanol (Atodiad 3);
iv. Cynllun ymgynghori cyhoeddus er mwyn tynnu sylw'r Pwyllgor o bwrpas yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r drefn arferol i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus am ganllawiau (Atodiad 4).

## 2. Disgwyliadau'r gwerthusiad beirniadol

2.1 Gofynnodd y briff i'r ymgynghorwyr llwyddiannus gynnig arweiniad arbenigol a fyddai'n cynorthwyo'r Cynghorau i gwblhau'r drafft ymgynghori terfynol o'r Canllaw er mwyn sicrhau ei gadernid i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

2.2 Er mwyn gallu cynnig yr arweiniad hwnnw, 'roedd angen i'r ymgynghorwyr llwyddiannus fod yn darparu mewnbwn arbenigol gan gynllunydd iaith cymwys a gan ymgynghorydd cynllunio defnydd tir cymwys. Wrth wneud hynny byddai'r gwerthusiad beirniadol o'r Canllaw'n cael ei wneud gan dim aml-ddisgyblaeth o fewn cyd-destun cynllunio defnydd tir.

## 3. Yr arbenigwyr a benodwyd

3.1 Cafodd Owain Wyn o 'BURUM' a Dr. Kathryn Jones o 'Cwmni Iaith' eu penodi i wneud y gwaith.

3.2 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ymgynghorol BURUM yw Owain Wyn. Mae BURUM yn cynnig gwasanaeth adfywio a chynllunio ers 1998. O ran yr elfen gynllunio defnydd tir mae BURUM wedi cyflawni gwaith i amrediad o gleientiaid cyhoeddus, preifat a chymunedol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd, Grŵp Cynefin, GISDA a nifer o ddatblygwyr a chleientiaid preifat. Mae wedi cwblhau asesiad effaith iaith ac wyth datganiad cymunedol ac ieithyddol ar ran cleientiaid yn unol â Canllaw Cynllunio Atodol presennol Gwynedd ar yr iaith Gymraeg. Wrth weithio gyda Cwmni Iaith Cyf. (i) cyfrannodd at waith i lunio adroddiad ar Fframwaith a Chanllaw Asesu a Rheoli Risg a Buddion i'r Gymraeg ar gyfer Datblygiadau Mawr a Datblygiadau Seilwaith Mawr ar gomisiwn i Lywodraeth Cymru; ac mae'n (ii) darparu arbenigedd a chyngor arbenigol ar yr Iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig ar gyfer Prosiectau Mawr i Gyngor Sir Ynys Môn ar hyn o bryd.

3.3 Dr Kathryn Jones yw rheolwr gyfarwyddwr Cwmni Iaith Cyf. Mae'n gymdeithasegydd iaith, bu'n darlithio ac yn gyfrifol am fodiwlau cymdeithaseg iaith, polisi a chynllunio iaith (PCI) ym mhrifysgolion Caerhirfryn, Bangor a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant. Mae ganddi dros ugain mlynedd o brofiad o gyflawni ac arwain prosiectau PCI arwyddocaol sy'n dylanwadu ar bolisi cyhoeddus â'r Gymraeg mewn meysydd amrywiol. Ymhlith y rhain, cynhaliodd asesiadau effaith ieithyddol ar ddatblygiad diwylliannol a sosio-economaidd. Fel nodwyd uchod, mae wedi gweithio gyda Owain Wyn ar ddatblygu Fframwaith a Chanllaw Asesu a Rheoli Risg a Buddion i'r Gymraeg ar gyfer Datblygiadau Mawr a Datblygiadau Seilwaith Mawr i Lywodraeth Cymru; ac mae wrthi'n darparu arbenigedd a chyngor arbenigol ar yr Iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig ar gyfer Prosiectau Mawr i Gyngor Sir Ynys Môn ar hyn o bryd.

## 4. Y gwerthusiad beirniadol

4.1 Gofynnwyd i'r ymgynghorwyr ddarllen y Canllaw drafft ymgynghorol a chyflwyno'u sylwadau amdano ar ffurf adroddiad cryno. Yn unol â'r drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Ebrill 2018, dyma'r disgwyliadau:

i. Crynhoi a gwerthuso’r cyngor a’r arweiniad a roddir yn Adran 2 (ac unrhyw Atodiad perthnasol) ynglyn â defnyddio Polisi PS 1 yn ystod y camau cyn ac ar ôl cyflwyno cais cynllunio.
ii. Dadansoddi Adran 2 o’r Canllaw (ac unrhyw Atodiad perthnasol) mewn dull cytbwys, a fydd yn nodi ei gryfderau a gwendidau. Nid pwrpas y gwerthusiad beirniadol fydd amlygu agweddau negyddol yn unig.
iii. Edrych ar Adran 2 o’r Canllaw (ac unrhyw Atodiad perthnasol) a gwerthuso ei lwyddiant, yng ngoleuni ei ddiben, sef darparu arweiniad am ddefnyddio Polisi PS 1 (yn bennaf) i ymgeiswyr (a’r rhai sy’n eu cynghori) sy’n bwriadu cyflwyno datblygiad am ganiatâd cynllunio a’r rhai sy’n gorfod gwneud penderfyniad am y datblygiad arfaethedig.
iv. Yn dangos bod yr ymgynghorydd o leiaf wedi gofyn y cwestiynau canlynol iddo’i hun ac wedi mynd i’r afael â hwy:

| | |
|---|---|
| a | Beth ydi amcan y Canllaw? Ydi’r amcan wedi cael ei gyflawni? |
| b | Mae’r Gwasanaethau Cynllunio yn awyddus i ymgeiswyr gael eu cynghori gan berson cymwys. Ydi’r disgrifiad o berson cymwys yn gadarn? Ydi rôl y person cymwys yn glir? |
| c | Mae’r Canllaw yn cyfeirio’r ymgeisydd a’r person cymwys a fydd yn ei gynghori i ffynonellau gwybodaeth – a oes yna ffynonellau eraill? |
| ch | Beth ydi strwythur Adran 2 o’r Canllaw?  A yw'n effeithiol? |
| d | Ydi’r drefn sgrinio a roddir yn Atodiad 5 yn effeithiol? |
| dd | Ydi’r fethodoleg sydd yn Atodiad 7 ar gyfer ymgymryd ag asesiad a fydd yn arwain at Ddatganiad Iaith Gymraeg yn effeithiol? |
| e | Ydi’r fethodoleg sydd yn Atodiad 8 ar gyfer ymgymryd ag asesiad a fydd yn arwain at adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn effeithiol? |
| f | Awgrymu newidiadau pan fydd angen hynny er mwyn gwella cadernid y Canllaw. |

4.2 Mae Atodiad 1 i’r adroddiad hwn yn cynnwys copi o’r adroddiad trosolwg a gafodd ei lunio gan Owain Wyn a Dr. Kathryn Jones ar ddiwedd eu hasesiad o’r Canllaw.

4.3 Mae eu hadroddiad yn cynnwys 7 argymhelliad, sy’n golygu gwneud rhai newidiadau i rannau amrywiol o’r Canllaw. Yn fras, mae’r newidiadau yn golygu:

i. Rhannu’r Canllaw i dair adran yn lle dwy, sy’n golygu symud testun o adran 2;
ii. Ail- drefnu rhai o’r paragraffau yn adran 2;
iii. Ychwanegu testun newydd a chael gwared â thestun, e.e. i esbonio’r berthynas rhwng asesiadau iaith a theulu ehangach o ddulliau o ddelio efo ansicrwydd ac asesu a rheoli risg, rhoi’r cyd- destun cenedlaethol, cyfeirio at strategaeth Llywodraeth Cymru;
iv. Ehangu a chryfhau’r ystyriaeth a’r cwestiynau a ofynnir i’r ymgeisydd ei ystyried wrth baratoi Datganiad;
v. Newid trefn camau yn y fethodoleg ar gyfer paratoi Adroddiad Asesiad Effaith, ail bwysleisio’r angen am ymgysylltu a gweithgareddau ymgynghori yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno cais, a chynnwys dull sgorio gwahanol gwestiynau.

4.4 Cyflwynodd yr ymgynghorwyr y newidiadau manwl sy’n deillio o’r argymhellion yn y Canllaw drafft ymgynghorol, gan ddefnyddio’r teclyn “adnabod newidiadau” i wneud hynny.

**5. Sylwadau'r Gweithgor Ymchwiliad Craffu Cymunedau – Cynllunio a'r iaith Gymraeg (Cyngor Gwynedd)**

5.1 Mae'r broses paratoi'r Canllaw yn cynnwys ystyried sylwadau ac argymhellion oddi wrth Bwyllgor Craffu Cymunedau a/ neu Weithgor Ymchwiliad Craffu Cymunedau – Cynllunio a'r iaith Gymraeg (Cyngor Gwynedd). Cafodd y Gweithgor Ymchwiliad Craffu Cymunedau – Cynllunio a'r iaith Gymraeg gopi o'r adroddiad am y gwerthusiad beirniadol a chopi o'r Canllaw drafft ymgynghorol diwygiedig ar 19 Hydref 2018. Mae Atodiad 2 yn cynnwys copi o adroddiad y Gweithgor hwn. Mae rhan o'r adroddiad yn cynnwys rhestr o brif faterion a godwyd gan gyfranwyr i'r Ymgysylltiad anffurfiol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2016. I atgoffa'r Pwyllgor hwn, pwrpas yr ymgysylltiad hwnnw oedd gofyn barn am y ddau Ganllaw Cynllunio Atodol a oedd wedi cael eu mabwysiadu i gefnogi polisïau'r hen gynlluniau datblygu. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i geisio cael adborth gan yr ymgynghoreion. Mae'r Gweithgor yn argymell dylid ymateb i'r materion hynny. Mae'r copi o adroddiad y Gweithgor yn Atodiad 2 yn rhoi ymateb cryno i'r materion/ cwestiynau hynny.

5.2 Mae'r Gweithgor yn tynnu sylw at y ffaith na chafwyd arweiniad gan arbenigwyr ym meysydd ymchwil a dadansoddeg nac ymgysylltu ac ymgynghori. Mae paragraff 1.1 uchod yn cofnodi penderfyniad y Pwyllgor. Nid yw'n cynnwys cael barn allanol yn y meysydd a nodir.

**6. Ymateb arfaethedig i'r Gwerthusiad Beirniadol**

6.1 Credir byddai'r Canllaw yn elwa o dderbyn argymhellion y Gwerthusiad Beirniadol, a'r newidiadau a fyddai'n angenrheidiol i'w gwneud er mwyn gweithredu'r argymhellion.

6.2 Mae'r Canllaw drafft ymgynghorol diwygiedig a welir yn Atodiad 3 yn ymgorffori'r holl newidiadau manwl a gafodd eu dangos gan yr ymgynghorwyr gyda'r teclyn "adnabod newidiadau".

**7. Camau nesaf ac amserlen**

7.1 Mae'r tabl nesaf yn adnabod y camau nesaf a'r amserlen ddangosol ar gyfer cyflawni'r camau. Mae'r camau'n cynnwys cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am y Canllaw drafft ymgynghorol. Mae ymgynghoriad cyhoeddus yn golygu defnyddio dull safonol, yn debyg i'r dull statudol a ddefnyddir i baratoi cynllun datblygu lleol. Yn fras mae'r dull fel a ganlyn: adnabod ymgyngoreion penodol a chyffredinol; cysylltu â ymgyngoreion penodol a chyffredinol; cyhoeddi'r canllaw drafft ymgynghori ar y wefan ac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus; cyhoeddi manylion yr ymgynghoriad, gan gynnwys manylion am y ffyrdd gwahanol o gyflwyno sylwadau. Mae mwy o fanylion yn y cynllun ymgynghori yn Atodiad 4.

7.2 Bydd yr amserlen i fynd trwy'r camau yn y tabl isod yn dibynnu ar ffactorau fel nifer a natur y sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.

Tabl 1: camau nesaf ac amserlen ddangosol

| DYDDIAD | BETH YDI'R CAM |
|---|---|
| Rhagfyr 2018 – Ionawr 2019 (cyfnod 7 wythnos yn lle 6 wythnos oherwydd y Nadolig) | Ymgynghoriad Cyhoeddus am y CCA drafft ymgynghorol diwygiedig |
| 22 Mawrth 2019 | Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd |
| 4 Ebrill 2019 & 9 Ebrill 2019 | Pwyllgor Craffu Cymunedau & Pwyllgor Scriwtini Partneriaeth ac Adfywio (Cyngor Sir Ynys Mon) |
| Mai 2019 | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |

**8. Argymhelliad**

8.1 Bod y Pwyllgor yn:

1. rhoi hawl i swyddogion wneud mân newidiadau golygyddol i'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy – drafft ymgynghorol diwygiedig;
2. cymeradwyo'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy – drafft ymgynghorol diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

**ATODIADAU:**

Atodiad 1: Adroddiad gorolwg y gwerthusiad beirniadol
Atodiad 2: Adroddiad Gweithgor Ymchwiliad Craffu Cymunedau – cynllunio a'r iaith Gymraeg (Cyngor Gwynedd) a'r ymateb
Atodiad 3: Canllaw Cynllunio Atodol Drafft Ymgynghorol Diwygiedig: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy.
Atodiad 4: Cynllun Ymgynghori